



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

 cadw

# Teithlen y De-orllewin: Llwybr Arfordir Cymru

Cafodd Llwybr Arfordir Cymru ei lansio yn 2012 ac mae'n ymestyn ar hyd 870 milltir o dirlun gwefreiddiol, gan basio nifer fawr o safleoedd hanesyddol a mannau diddorol, gan gynnwys rhai o gestyll a llysoedd difyrffaf Cadw.

Os ydych chi yn y De-orllewin, dilynwch lwybr yr arfordir i **Gastell Cydweli** a **Chastell Talacharn**, i gael gwybod am storïau Arglwyddi Mers y De ac effaith eu gweithgareddau nhw o ran ffurfio Cymru, neu i ddysgu am hyd a lled cyfoeth a grym esgobion yr oesoedd canol yn **Llysoedd yr Esgobion yn Llandyfái a Tyddewi**...




1  
**Castell Cydweli**

Mae **Castell Cydweli** yn dyst i dechnoleg gwaith maen y gaer ganoloesol. Dyma gastell cadarn a thrawiadol a gafodd ei ddatblygu dros fwy na thair canrif o ryfel rhwng y Cymry a'r Saeson. Mae'r siâp hanner lleuad yn tarddu o gaer stocâd wreiddiol y 12fed ganrif, ac mae'n cael ei amddiffyn gan afon Gwendraeth ar un ochr a chan ffos ddofn ar siâp cilgant ar yr ochr arall. Ym 1136 cafodd y Dywysoges Gwenllïan (gwraig Arglwydd Deheubarth) ei lladd mewn brwydr yn erbyn y Normaniaid a oedd yn meddiannu Cydweli ar y pryd. I fwynhau eiliad gwirioneddol ganoloesol, mynnwch gip ar Gydweli yn niwl y bore.



2  
**Castell Talacharn**

Mae **Castell Talacharn** yn sefyll yn osgeiddig ar esgair isel uwchben aber eang afon Taf, ac mae'n un o gyfres o geirydd a oedd yn rheoli'r hen lwybr ar hyd arfordir y De-orllewin. Peidiwch â cholli tŵr campus y gogledd-orllewin a'i do carreg cromennog anarferol, na'r golygfeydd gwych o'r bylchfuriau. Mewn cyfnod mwy diweddar, daeth y safle'n ysbrydoliaeth i rai o gewri llenyddol Cymru. Yma yr ysgrifennodd Dylan Thomas ei gyfres o storïau byrion, *Portrait of the Artist as a Young Dog* a lluniodd Richard Hughes ei nofel, *In Hazard*.



3  
**Llys yr Esgob yn Llandyfái**

Henry de Gower, esgob Tyddewi rhwng 1328 a 1347 a gododd **Lys yr Esgob yn Llandyfái**, a dyma hoff lety'r esgobion canoloesol hynny oedd yn chwilio am loches ymhell o bryderon yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Daeth cyfnod llewyrchus Llandyfái i ben pan gafodd ei drosglwyddo i Henry VII ym 1546. Mae'r neuadd fawr a'r porthdy mewnol yn gampau pensaernïol arbennig o dda. Mae gan y safle hanes mwy diweddar hefyd, gan ei fod wedi'i ddefnyddio yn ganolfan i unedau o'r Llu Awyr ac o fyddin yr Unol Daleithiau yn yr Ail Ryfel Byd.

4



Llys Esgob Tyddewi

Henry de Gower hefyd fu'n gyfrifol am **Llys Esgob Tyddewi**, sef y llys esgob canoloesol mwyaf trawiadol sydd gan Gymru. Mae'r safle cyfan yn iasol, gan ddwyn i gof gyfnod pan oedd crefydd yn ei hanterth a'r esgobion yn ddynton pwerus. Mae gan y llys addurniadau coeth a cherfiadau cain yn y meini. Mynnwch weld y neuadd fawr; sef siambr fwyaf trawiadol y llys, a oedd yn berffaith ar gyfer gwleddoedd. A chofiwch gymryd cip ar yr isgrofftydd helaeth a'r bwa mawreddog, o fu'n fynedfa addas i adeilad mor eiconig.

Tra byddwch chi ar Llwybr Arfordir Cymru, mae'r safleoedd eraill i chwilio amdany'n nhw yn cynnwys **Castell Llansteffan**, **Croes Caeriw** a **Chapel Non**.

I wybod am y storïau a'r bobl y tu ôl i'n 128 o safleoedd hanesyddol, ewch i [cadw.cymru.gov.uk](http://cadw.cymru.gov.uk). Hoffwch Cadw ar Facebook a dilynwch @cadwcymru ar Twitter i gael y newyddion diweddaraf.



Rhyw 30 munud yw amser y siwmai o Gydweli i Dalacharn, rhyw 40 munud o Dalacharn i Landyfai a rhyw 55 munud o Landyfai i Dyddewi.